# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Mawrth 2018

Amser: 11.00 - 13.10

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4497

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Mandy Jones AC<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)193 – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)189 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(5)191 – Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

### 3.3 SL(5)197 – Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb y Llywodraeth a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.4 SL(5)196 – Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

## 4 Papur i'w nodi

### 4.1 Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Llythyr gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Arweinydd y Tŷ.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

### 5.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Masnach: Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.

### 5.2 Gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 116C

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd, a chytunwyd i ystyried ymateb yn y cyfarfod nesaf.

## 6 Bil Cyfraith sy’n Deillio o’r Undeb Ewropeaidd (Cymru): sesiwn dystiolaeth

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

### 7.1 Bil Cyfraith sy’n Deillio o’r Undeb Ewropeaidd (Cymru): trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.